# Gair Bach Bethlehem 56

Rhifyn Canol Haf 2026

www.bethlehem.cymru [Hefyd ar BlueSky @tycwrddbethlehem.bsky.social Gwaelod-y-garth]
*Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)*

Oes, mae sawl cyfeiriad at fannau pellennig yn y rhifyn hwn o'r Gair Bach: Ffrainc a Gaza, Y Fatican ac Awstralia a hyd yn oed Pontrhydfendigaid a Llanbrynmair! Ond mae yma hefyd fanylion am weithgaredd nes adref ynghyd â chrynodeb o'r cwrdd diaconiaid – a gwers fer ar yr "odl-gudd"! Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y cynnwys.

## CORON PONTRHYDFENDIGAID I MARTIN



Mae casgliad Martin Huws o brif wobrau eisteddfodol yn cynyddu! Dyma fe, dan ei goron gydag un o'r beirniaid, Y Prifardd Hywel Griffiths, ar ôl y seremoni yn nechrau mis Mai ym Mhontrhydfendigaid. Dilyniant o gerddi ar y testun "Taith" ddaeth â'r wobr iddo a'r cerddi hynny'n cyfleu profiadau unigolyn sydd â'r cof yn dechrau pallu.
Llongyfarchiadau, Martin! (Ac yn ôl mesurydd yr "AA", dim ond 47.3 milltir sydd rhwng pafiliwn Pontrhydfendigaid a maes y Brifwyl yn Llantŵd eleni!)



### *Elin ein haelod diweddaraf*

***Croeso mawr i'n plith, Elin Angharad, sydd newydd ymaelodi ym Methlehem. Wedi ei magu a'i haddysgu yng Nghaerdydd, mae hi'n byw'n lleol ac wedi ac wedi bod yn mynychu'n rheolaidd ers tro bellach. Cafodd Delwyn y fraint o'i derbyn yn aelod yn ystod oedfa gymun mis Mehefin.***




### Croeso! Tomos Meilir

*Mae cryn wythnosau bellach (Dydd Mercher, Ebrill 29 i fod yn fanwl) ers i frawd bach newydd gyrraedd er mwyn i Sara gael ei gwtshio. Ond dyma'r cyfle cyntaf rydyn ni wedi ei gael i gynnwys llun Tomos Meilir a'i groesawu i'n plith. Llongyfarchiadau i Gwenllian a Meilir, ac i mam-gu a tad-cu, Heulwen a Wyn, hefyd!*

Delwyn ar gwydr!

# "Draw dros y don mae bro dirion …"



Gogoniant Tŵr Eiffel, gwychder y Sacre Coeur, mawredd y Champs Elysees, rhyfeddod Notre Dame, rhin y ddinas fendigedig ar lan y Seine, heb sôn am brydferthwch gardd Monet yn Giverny. Ie, Paris!

A ry' ni newydd ddychwelyd ar ôl wythnos o wyliau …mmm.. oes ansoddair ar ôl gwedwch? O oes! … bendigedig! Er, mi oedd e'n boendod gorfod prynu a chario poteli dŵr! A pham ma'r tai bach wastod ar y trydydd llawr ?!?! Ond, 'na fe, nôl i normal nawr, a diflastod yr *arferol* wedi'r *arbennig.* Clirio e-byst, gwacau binie, torri'r lawnt, ac wrth gwrs agor llwyth o bost. A jesd i ychwanegu at y diflastod, beth oedd yn yr amlen gynta' - rhagrybudd bil treth! Wir i chi! Yna, llwyth o bapurach siopau dillad ar lein, gwefannau Bingo, Screwfix, Farmfoods, a wedyn …a wedyn …misolyn oddi wrth Medecins Sans Frontieres (Meddygon heb Ffiniau) oedd yn cynnwys adroddiadau gan feddygon ac arbenigwyr eraill oedd yn gweithio'n Ne Sudan, Nigeria, Darfur, Libanus, yr Iwcrain a Gaza. Fel ma' Al Lewis yn canu "Ma'r da a'r drwg yn dal i ga'l i bostio."

Ac o ganol sefyllfaoedd drwg, hanes bobol dda, pobol fel Paula Navarra.

Gofalu am lendid dŵr a charthffosiaeth ma' Paula, ac mae wedi bod yn Gaza bedair gwaith yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Pan adawodd ym Mehefin 2025 roedd yr ardal yn ddychrynllyd o brin o fwyd, roedd y boblogaeth a'i staff yn "super skinny" medde hi, yn byw ar reis a chawl. Pan ddychwelodd adeg y Dolig roedd pethau rhywfaint yn well, gyda 'chydig mwy o fwyd yn cyrraedd oherwydd y saib yn y bomio. Ond hyd yn oed wedyn roedd y sefyllfa'n druenus. Ac er bod dim bomio, roedd darnau o'r hyn oedd ar ôl o'r adeiladau yn syrthio ar y môr o bebyll islaw, gan ladd y trigolion o'u mewn. Doedd dim diwedd ar y dioddefaint.

Doedd dim dŵr glân naturiol yn Gaza cyn y rhyfel, mae'n ddŵr sy'n llawn halen, felly mae'n gorfod cael ei buro mewn canolfannau arbennig, canolfannau sy' wedi'w dinistrio gan fomiau byddin Israel. Felly ma' MSF yn creu canolfannau bach - i buro'r dŵr, a chynnig cymorth meddygol, y pethe mwya' sylfaenol i gynorthwyo pobol i fyw. A ma' na 400,000 o bobol yn derbyn dŵr ganddyn' nhw'n ddyddiol.

Y broblem fawr arall yw diffyg toiledau - ma'r holl adeiladau'n rhacs, felly sdim toiledau ar ôl, a ma'r canolfannau carthffosiaeth; fel y canolfannau dŵr, wedi'w chwalu gan fomiau. Felly, ma' pob elfen o urddas wedi'w ddwyn oddi wrth y bobol.

Ond serch hyn, ma' Paula'n dweud drosodd a throsodd bod y boblogaeth yn anhygoel. Ac mae'r timau sy'n cynorthwyo - timau amgylcheddol a meddygol MSF - hwythau yn anhygoel. Ma' hi'n adrodd hanes un cynorthwywr Palesteinaidd gyrhaeddodd bum awr yn hwyr i'w waith un diwrnod, digwyddiad hollol annodweddiadol. Wedi cyrraedd, ymddiheurodd i Paula, ond roedd e' wedi bod yn chwilio am gorff ei dad, wedi'w gartre' gael ei ddinistrio gan daflegryn Israelaidd. A nawr, roedd e' jesd moyn gweithio. Cynorthwyo.

"Mae anghenion y bobol yma'n ddirfawr" medde Paula wrth gloi ei hadroddiad, "ac ma' gwaith MSF yn eithriadol o bwysig, ac mae'n hanfodol ei fod yn parhau - er mwyn pobol Gaza."

Da chi, atgoffwch fi i beidio cwyno am gario potel o ddŵr neu ddod o hyd i dŷ bach ar y trydydd llawr byth 'to ! On'd yw hi'n hawdd iawn anghofio pa mor ffodus y'm ni.

*Delwyn.*

# Suliau Gorffennaf ac Awst

**Cofiwch am Y Swper Haf!**
**4.00 y pnawn**
**(Dim oedfa yn y bore!)**

## Mis Gorffennaf:

5 - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
12 - Oedfa a Swper Haf (4:00 p.m. sylwer)
19 - Oedfa dan ofal Rhys Powys
26 - Oedfa ar y cyd yn y Tabernacl dan ofal y Parchedig Dyfrig Rees (11:00 a.m.)

## Mis Awst:

2 Awst - Oedfa ar y cyd, dan ofal Rhodri-Gwynn Jones, ym Methlehem, Gwaelod-y-Garth (10:30 a.m.)
9 Awst - Oedfa ar y cyd yn y Tabernacl, Efail Isaf, dan ofal Geraint Rees, (11:00 a.m.)
16 Awst - Oedfa ar y cyd dan ofal Ian Hughes, ym Methlehem, Gwaelod-y-Garth (10:30 a.m.)
23 Awst - Oedfa ar y cyd yn y Tabernacl, Efail Isaf, dan ofal y Parchedig Dyfrig Rees (11:00 a.m.)
30 Awst - Oedfa ar y cyd dan ofal Y Parchedig Robin Samuel, Bethlehem, Gwaelod-y-Garth (10:30 a.m.)

**Myfyrdod dros yr Haf**

## Ara' Bach

| | |
|---|---|
| Mynnwch amser i feddwl **-** | **meddyliau yw pwerdy nerth.** |
| Mynnwch amser i chwarae - | **chwarae sy'n cadw rhywun yn ifanc.** |
| Mynnwch amser i ddarllen - | **ma' darllen yn magu doethineb a deall.** |
| Mynnwch amser i weddïo - | **gall gweddi fod yn '*graig yr oesoedd'* pan fo *'darnau'n cwympo i lawr o hyd'*.** |
| Mynnwch amser i garu - | **caru sy'n rhoi ystyr i fywyd.** |
| Mynnwch amser i fod yn gyfeillgar - | **ma' cyfeillgarwch yn rhoi blas ar fyw.** |
| Mynnwch amser i chwerthin - | **ma' chwerthin yn well na photelaid o ffisig i'r corff ac yn fiwsig i'r enaid.** |
| Mynnwch amser i roi - | **ma' pob dydd yn rhy fyr a bywyd yn rhy gwta i'w lenwi ag hunanoldeb.** |
| Mynnwch amser i 'neud eich gwaith - | **ma' balchder at grefft, ymhyfrydu mewn gwaith da, beth bynnag yw, yn gloywi eich urddas, eich hunan barch.** |
| Mynnwch amser i addoli - | **ma' addoli'n bwydo a dyrchafu'r enaid.** |


***[Addaswyd o'r Saesneg gan y diweddar Barchedig Ddr T.J Davies. Ni wyddys pwy yw'r awdur gwreiddiol.]***

# ✶✶ NEWYDDION BETHLEHEM 1 ✶✶



Pawb wedi clirio eu platiau!  Yn yr Hen Bost ym mhentref Sain Ffagan y bu rhai o chwiorydd Bethlehem yn gwledda ym mis Mai. Y trefniadau, fel arfer, yn nwylo medrus Ann Passmore.

## CYDNABOD WYNFORD AM EI WAITH.



Mae un o'n cyd-aelodau newydd gael ei ddewis ymhlith enillwyr y "Times Sternberg Active Life Awards" am eleni. Mae'r gwobrau'n cydnabod cyfraniad i fywyd cyhoeddus a'r gymuned ar ôl pasio oed yr addewid. Ydi – mae'r wobr wedi ei dyfarnu'n haeddiannol iawn i ***Wynford Ellis Owen***.

Felly, mae'r Times a Sir Sigmund Sternberg bellach yn gwybod ac yn gwerthfawrogi gwaith yr Ystafell Fyw. Fel y gwyddom, am dros ddegawd, bu Wynford yn un o leisiau mwyaf dylanwadol Cymru o safbwynt adferiad o ddibyniaeth.

Mae o'n parhau i wasanaethu fel ymgynghorydd cwnsela arbenigol i'r Stafell Fyw a'i sefydliad cysylltiol gan helpu i ymestyn gwasanaethau adfer ar draws Cymru  a rhoi cymorth i glerigwyr a gweithwyr meddygol drwy raglenni ymgynghori penodol a chynnal encilfeydd a hyfforddiant adfer dan arweiniad un o leisiau mwyaf dylanwadol Cymru o safbwynt adferiad.

# ★★ NEWYDDION BETHLEHEM 2★★

## *Croeso nôl Catherine!*



Yn ein rhifyn diwethaf roeddem yn darllen tipyn o hanes Catherine Blythe (Gwaelod-y garth gynt) am ei bywyd yn Awstralia. Yr hyn na ddatgelodd hi y tro hwnnw oedd ei dyweddïad a'i bod yn priodi eleni. Ond cawsom glywed am hynny a chwrdd â'i dyweddi, Marty, yn ystod ei hymweliad diweddar.
Dymuniadau gorau i'r ddau draw ym Melbourne.

## SÊR YR URDD

***Llongyfarchiadau i bob un o'r to iau welwyd ar lwyfannau Prifwyl yr Urdd Ynys Môn yn wythnos olaf mis Mai.***
***Gobeithio i'r profiad fod yr un mor gofiadwy ag yr oedd y lleoliad a'r tywydd!***
***Braf iawn oedd gweld wynebau cyfarwydd Ysgol Sul Bethlehem hefyd ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn cynrychioli eu hysgol neu adran.***

## *HEFIN, CADWGAN A LLOYD GEORGE*



Cyfareddwyd cynulleidfa Cylch Cadwgan ym Methlehem ym mis Mawrth gan ddarlith un o'n haelodau, yr hanesydd Hefin Mathias. Mewn cyflwyniad amlgyfrwng o sleidiau a chlipiau o areithiau David Lloyd George cafwyd portread eithriadol o gynhwysfawr o yrfa'r dewin o Ddwyfor. Llywyddwyd y noson gan Wyn Jones. Diolch i'r ddau am noson gofiadwy.
I'r rhai sy'n parhau i fod yn anghyfarwydd â threfniadau Chylch Cadwgan, mae Bethlehem yn un o 5 o'r cymdeithasau sy'n trefnu un noson yr un mewn tymor. Mae croeso i chi ymuno â rhai y Tabernacl, Efail Isaf; Merched y Wawr Cangen Y Garth; Clwb Y Dwrlyn a Chymdeithas Gymraeg, Llantrisant.

## Colli'r Parchedig Dafydd H. Owen



Yn nechrau Ebrill daeth y newydd am golli'r Parchedig Dafydd H. Owen, un a fu'n arwain mynych oedfaon ym Methlehem dros y blynyddoedd. Rydyn ni'n cofio'n annwyl at ei briod a'r teulu oll yn eu colled.

## Y GAIR BACH

**nesaf.**

Fe fydd hi'n fis Medi mewn dim o dro.
Beth am gyfraniad i'r rhifyn hwnnw?

Anfonwch air neu lun at Ifan:
tycnau@aol.com.
Neu "watsapiwch" -07761826977

*Côr Caerdydd yn y Fatican!*

# SAITH AELOD YN RHUFAIN


**Marged Cartwright**



Mentrodd saith o aelodau Bethlehem ar daith i ganu mewn Offeren yn eglwys St Pedr, Y Fatican yn ddiweddar. Gadael cyn codi cŵn Caer i gyrraedd Heathrow fore Iau. Bu aros maith yn ceisio dod drwy'r gyfundrefn ddiogelwch yn Rhufain diolch i'r newidiadau diweddar. Weithiodd mo'r system i nifer ohonom! Ta waeth, wedi awr a hanner canfuwyd bod un câs teithio coll! Wrth adrodd i'r ddesg ymholiadau ddywedon nhw bod y bag newydd gyrraedd ar ehediad diweddarach a'i fod bellach ar y belt! Un fantais o aros maith oherwydd y beiometrics!



Ddydd Gwener roedd gan y côr gyngerdd yn y Basilika San Eustachio (dyma fe'r Sant Eustachio ar y dde) ar y cyd â chôr lleol Coro Voxel. Canom ni raglen amrywiol gan gyfansoddwyr o Gymru. Caneuon gwerin, caneuon o sioeau cerdd, gweithiau mwy clasurol. Cydganom Ave Maria gyda Coro Voxel - darn a gyfansoddwyd gan ei harweinydd. Os cewch chi gyfle i'w clywed da chi ewch – maen nhw'n wirioneddol dda. Cyngerdd cofiadwy iawn mewn lleoliad bendigedig i ganu ynddo.



Fore Sadwrn - y diwrnod mawr! Cyrraedd cefn y gynffon faith i fynd i mewn am 9.30. Awr o aros yn yr haul tanbaid! Cyn mentro i'r adeilad cawsom ymarfer awyr agored, digyfeiliant, a degau o gamerâu ymwelwyr yn ein ffilmio! Mewn â ni i'r eglwys brysur, brysur a'i thrysorau di-ri. Llwyddais weld y Pieta y bu Ian Hughes yn sôn amdano ar ddydd Gwener y Groglith ym Methlehem. Mae mor drist ei fod tu ôl persbecs achos y difrod a wnaed iddo ddegawdau yn ôl. Ymddengys fel petai Mair yn edrych ar Grist yn ei harffed o'r lle y gwelwn y cerflun heddiw. Pe baech yn sefyll lle fwriadodd Michelangelo i chi wneud mae'n ei gynnig i chi.

Am hanner dydd roedd ein hofferen ni yn cychwyn yn y capel tu cefn i brif allor St Pedr lle mae'r Pâb yn cynnal gwasanaethau. Gyda llaw, welon ni mo'r Pâb Leo gan ei fod ar daith ar y pryd yn Affrica. Canwyd y gloch a dyna'r arwydd i Gwawr, a Dafydd Huw ar yr organ, ddechrau ein perfformiad o'r Kyrie gan Schubert wrth i'r offeiriad gerdded at yr allor.

Canwyd Gloria, Vivaldi gennym, Ubi Caritas, Paul Mealor yn ogystal â gwaith gwreiddiol gan Geraint Owen, nai Gwawr, sef ei Angus Dei. Braf oedd cael cwmni Geraint yn yr Offeren ac roedd e wrth ei fodd i glywed ei gyfansoddiad wrth i'r addolwyr dderbyn y Cymun. Clywyd Pie Iesu, Robert Arwyn yn atseinio drwy'r eglwys ac fe'i canwyd gan Aled Thomas. Perfformiwyd coral olaf The Armed Man Karl Jenkins, sef *Duw yw'r un sy'n sychu'r dagrau* ar yr organ gan Dafydd Huw wrth i'r gynulleidfa orffen derbyn y cymun. Profiad gwirioneddol drawiadol a thipyn o fraint i'r cor oedd cael cyfle i gymryd rhan yn yr Offeren yn Eglwys St Pedr ac fe gofiwn y profiad am amser maith.



Anrheg mewn bag Tesco

# BEIBL I BAWB

Marian Ifans




Wn i ddim a oedd yr arfer yma yn cael ei arddel ymhob cwr o Gymru sef mai'r cyntaf anedig fyddai'n etifeddu beibl y teulu. Yn hwn byddai cofnod o enedigaethau, priodasau a marwolaethau dros ddegawdau/canrifoedd!

Mae John yn drydydd yn y llinach o bedwar a minnau yn y canol o dair merch. Doedd dim beibl teulu gan yr un o'm rhieni chwaith. Pan oedd T.J. yn fugail arnom, ambell waith fe gaem ddarlith yn lle pregeth, ac fel y nesai bys y cloc at ddiwedd yr oedfa byddai'n stopio'n stond ac yn dweud "os chi eisie rhagor o'r sgwrs yma bydd rhaid ichi ddod nôl mewn pythefnos/mis". Un o'r sgyrsie hyn oedd hanes Beibl Peter Williams ac fe gafwyd sawl sesiwn cyn dod a'r llith i ben. Mynegais wrth T.J. nad oeddem ni'n berchnogion beibl teuluol, a dyna fu.

Glaniodd T.J. acw rhyw b'nawn gyda bag plastig Tesco dan ei gesail. "Rhywbeth i'r teulu" oedd byrdwn ei neges a dyma ei eglurhad: Tra roedd T.J. yn ymweld a Llinos Davies, un o'i braidd, yn Nhongwynlais, trafodwyd y ddarlith. Mynegodd Llinos, (oedd yn ddi-blant) nad oedd dyfodol i'w llinach hi, ac y buasai'n hoffi rhoi'r Beibl "i deulu bach ifanc". "Mae gen i deulu mewn golwg" oedd ymateb T.J. ac roedd Llinos wrth ei bodd. Ymhlyg yn y dalennau cyflwynodd lythyr o eglurhad -sef hanes y Beibl, wrth ei gyflwyno i ni. Roedd y Beibl mewn cyflwr digon gwael, y meingefn yn wan a llawer o'r tudalennau yn rhydd. Aeth T.J. a fo i Aberystwyth i gael ei ail-rwymo yn broffesiynol.

Trysor yn wir! Dyma'r geiriau a gyfrannodd Llinos am STORI'R BEIBL.

*Prynwyd y Beibl hwn, yn ail law, tua 1896 gan fy nhad (John Evans) oddi wrth Iddew oedd yn cadw "Pawn Shop" ar y sgwâr yn Nhonypandy, y Rhondda. Brodor o Ddihewyd ger Llambed, Sir Aberteifi, oedd nhad. Daeth i weithio 'lawr i'r De' pan oedd yn ugain oed yn y flwyddyn 1899 – yn Gymro hollol uniaith! Arferai ymweld a'i chwaer oedd yn byw yn Clydach Vale o bryd i'w gilydd, a thra yn aros am y 'tram' i'w gludo i'r "Bush" gwelodd y Beibl yn ffenest y "Pawn Shop". Dwedodd wrtho'i hun fod tŷ heb feibl yn 'dy gwag' a rhaid oedd datrys y broblem ar unwaith. Roedd arian yn brin iawn, iawn, pryd hynny (cyflog nhad oedd £1.10.0 yr wythnos ) ond dyma fe yn mentro ar gael y Beibl.*

*Gofynnodd yr Iddew "coron", sef pum swllt, a nhad, fel Cardi craff yn ymgeisio bargeinio ag ef. Ateb yr Iddew oedd "Read this book (the first half at least) you will have more than one crown in heaven".*

*Cafodd y Beibl le parchus iawn am flynyddoedd yn ein tŷ ni, ar ganol y ford gron yn y 'Parlwr, gyda lluniau rhai o'm cyn-deidiau o'i amgylch! Da gwybod fod 'ein Beibl ni' yn cael y parch sy'n ddyledus iddo gan deulu Marian a John yn 10, Windsor Road, Radur.*

*Pob bendith am y dyfodol.*

*Llinos Davies*

Crynodeb o Gofnodion

# Cwrdd Diaconiaid Bethlehem, Gwaelod y Garth

Cyfarfod 10fed o Fai 2026

Nodwyd y canlynol fel tasgau, un a'i mewn llaw, neu i'w trefnu a'u cwblhau:-

- Cyhoeddi hanes y Capel – dim datblygiad pellach.
- Cwrdd â chefnogwyr "Plan International"
- Canllaw o gyntedd y Capel i'r Galeri – opsiynau yn cael eu hystyried.
- Cwblhau'r canllaw yn y Galeri (gyferbyn a'r grisiau sy'n arwain at y seddau)
- Arolwg cyflawn o'r Capel a'r Festri yn unol a'r "Heulwen Dan Gwmwl" (Creu eglwys Dementia-gyfeillgar")
- Gwahodd yr aelodaeth i ystyried ychwanegu at rengoedd y Diaconiaid a'r Ymddiriedolwyr.
- Cynnal cyfarfod rhwng yr Ymddiriedolwyr a'r Diaconiaid.

Cydnabuwyd, gyda diolch, waith Delwyn Sion fel Arweinydd ym Methlehem, gan nodi bod cyfnod o 10 mlynedd wedi mynd heibio ers iddo ymgymryd a'r swyddogaeth.

**Aelodaeth** -Nodwyd bod nifer o golledion wedi bod o fewn rhengoedd yr aelodau yn ystod y misoedd diwethaf, ond 'roedd, yn ogystal, nifer o fynychwyr rheolaidd wedi mynegi eu dyhead i ddod yn aelodau, a byddai cyfle yn fuan i'w derbyn yn rhan o'r eglwys.

**System Sain a Llun i'r Capel**: Cytunwyd bod angen symud ar frys i gael cynllun priodol yn ei le a fyddai'n sicrhau bod modd i'r mynychwyr glywed a gweld yn ddidrafferth.

**Y Festri** -Yn ogystal, byddid hefyd yn holi am bris goleuadau ar gyfer y Festri..

Nodwyd y byddai'n briodol hefyd i sicrhau bod hyfforddiant ar gael ar y defnydd o'r offer er cymhwyso nifer o'r aelodau yn ôl y galw.

Awgrymwyd y gellid ystyried prynu cypyrddau newydd ar gyfer y Festri, er tacluso a hwyluso'r defnydd o'r gofod sy'n bodoli. Byddai angen ymgynghori a chynrychiolwyr yr Ysgol Sul cyn symud ymlaen a'r bwriad.

**Elusennau:** Dylid ystyried cynllun o gynnal un digwyddiad (e.e. te prynhawn / bore coffi) er budd elusennau o fewn pob ardal a gynrychiolir gan yr aelodaeth / a neu Ddiacon yn eu tro.
Hefyd, dylid cynnal Swper Haf ar Sul y 12fed o Orffennaf eleni. Cytunwyd y gellid holi "Sight Life" (ein dewis elusen 2025/27) i ymuno a chyflwyno peth o hanes yr elusen bryd hynny.
Gellid hefyd ychwanegu swper neu ddigwyddiad tebyg ym mis Hydref, a "Bake-off" ym mis Rhagfyr, eto fel modd o godi arian, tra'n cymdeithasu, er budd yr elusennau.
Byddai'n fanteisiol i gael y rhieni ifanc sydd a phlant yn yr Ysgol Sul yn rhan fwy cynhwysfawr o wead y Capel
Nodwyd bod Banc Bwyd Caerdydd yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau misol a dderbynnir oddi wrth yr aelodau.

**Oedfaon:** Mynegwyd diolch i Paul Garside am ei ofal yn llenwi'r Suliau am y flwyddyn.
Cafwyd trafodaeth ar amseru ambell oedfa / gyflwyniad yn y prynhawn er denu rhai rhieni sydd a phlant yn ymwneud a gweithgareddau eraill ar fore Sul. (***parhad ar y dudalen nesaf)***

**Cristnogaeth Ymarferol -** Nodwyd fod darpariaeth "Te yn y Tabernacl / Canolfan Glyd" yn parhau (diolch arbennig i Ian ac Ann Hughes am gyd-lynu ar ran Bethlehem).

Awgrymwyd y byddai'n fanteisiol i gael hyfforddiant Cymorth Cyntaf (Calon Cymru?) ar y defnydd o'r offer "*defibrillator*" sydd ar gael ger Neuadd y Pentref.

"**Gair bach Bethlehem":** Diolchwyd i Ifan Roberts am sicrhau cyhoeddi "Gair bach Bethlehem" (Rhifynnau 52 - 55).

**Gwefan y Capel:** Mae'r cyswllt i'r wefan yn y Capel a'r Festri yn gweithio – diolch i Wyn Jones am ei ddycnwch gyda'r darparwyr.
Dyma'r manylion-

**Capel**: TyCwrddBethlehem (***Cyfrinair:*** mrmyrura4uCDy)
**Festri**: (***Cyfrinair:*** 21485299)

**Adroddiad y Trysorydd:** (Bydd yr Adroddiad Ariannol llawn ar gael yn fuan.)

Rhoddion yr aelodau ym mlwyddyn 25-26 yn £25 248. Cynnydd o 4.2% ar y cyfanswm o £24233 yn 24-25.
Hawliwyd £6261 oddi wrth yr awdurdodau treth, £5629 o dan gynllun Rhodd Cymorth ar roddion yr aelodau ym mlwyddyn 2023-24, a £632 dan gynllun GASDS am y ddwy flynedd 2022-24.
Daeth y casglu tuag at Gymdeithas Alzheimer Cymru i ben ar ddiwedd mis Awst 2025. 'Roedd cyfanswm o £5232 wedi ei gasglu dros 4 mlynedd. Trosglwyddwyd £6000 i'r elusen.
Rhoddion o £500 at gostau'r Ganolfan Glyd Tabernacl, £1500 i Fanc Bwyd Caerdydd, £600 i'r Ystafell Fyw.
Nodwyd mai nifer yr aelodau ar lyfrau'r eglwys bellach oedd **107**.
Ar gais y Trysorydd, cytunwyd i gyfrannu swm o £1500 i Fanc Bwyd Caerdydd, a £2000 i Cymorth Cristnogol eleni.

**Iechyd a Diogelwch / Diogelwch Plant ac Oedolion Bregus:** Byddid yn adolygu'r sefyllfa ynglŷn a "Diogelwch Plant ac Oedolion Bregus" yn ystod 2026, gan ymgynghori er goruchwylio'r broses gofrestru.

**Undeb yr Annibynwyr:** Bydd y canlynol yn cael eu trafod yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Abertawe ar y 24/26 o Fehefin:-

- Parhad y cydweithio gydag elusen amgylcheddol A Rocha (creu eco-eglwys – mae Bethlehem wedi derbyn cydnabyddiaeth Efydd ar hyn o bryd – a allwn fynd am yr Arian tybed?)
- "Pum Peth Personol" sef ein gofal am y greadigaeth – ymddangosodd erthygl dan faner Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn rhifyn mis Chwefror o "Tafod Elai" a'r "Dinesydd" ond a oes mwy y dylem ni ei wneud i hybu'r ymgyrch?
- Rhwydwaith Merched Cymru.

**Rhodri-Gwynn Jones, Ysgrifennydd,**
**Bethlehem, Gwaelod-y-garth**

# ELUSENNAU'N DIOLCH

Mae ein Trysorydd, Peredur, wedi derbyn dau lythyr sy'n haeddu eu nodi. Llythyrau o ddiolch ydyn nhw – y naill oddi wrth Y Gymdeithas Alzheimers a'r llall gan Fanc Bwyd Caerdydd. Wrth ddiolch am gyfraniad o £6000 oddi wrth Dŷ Cwrdd Bethlehem at y Gymdeithas Alzheimers mae'r rheolwr, Sandeep Shikotra, yn ein hatgoffa *(chwith isod)* fod ganddyn nhw wefan "Talking Point" lle gall teuluoedd gysylltu am sgwrs a holi am gyngor pellach.

Yn ogystal â'r casgliadau bwyd misol, rydyn ni hefyd wedi anfon £1500 at y Banc Bwyd ac wrth ddiolch dywed Sara Redwood, y Rheolwr Gweinyddol, i'r mudiad helpu 3371 o bobl eleni a dyfynnir un enghraifft o ddarpar fam oedd mewn sefyllfa fregus ddaeth atyn nhw am gymorth. Mae'r Banc yn wir ddiolchgar am eich cefnogaeth gyson.

Dear Peredur

We can achieve so much more when we come together. Thank you so much to everyone at Bethlehem Chapel for raising a fantastic £6,000.00. As requested, this donation has been restricted to support Alzheimer's Society Cymru. We will ensure that we make every penny count to drive our crucial work.

There are an estimated 900,000 people living with dementia in the UK, and this number will only rise in the coming years. By 2040, there are likely to be nearly 1.6 million people living with dementia in the UK. The total cost of health and social care, including unpaid care by friends and family, for people living with dementia in the UK is currently £34.7 billion per year, and this is projected to rise to £94.1 billion per year in 2040. As things stand, two-thirds of these costs are paid by people living with dementia and their families.

We'll make sure that your donation is put to good use, whether it's spent on campaigning governments to make dementia the priority it should be or delivering vital services across the UK. You're making a huge difference.

Just one of the vital services we provide is Talking Point, our online safe space, where a trouble shared can become a trouble halved. People accessing Talking Point can learn from each other's experiences, share their frustrations and their knowledge of local services. Talking Point lets people living with dementia share and learn from each other in a safe online space. Just £50 means 312 people can access this site any time, day or night.

Once again, thank you.

Yours sincerely,

Sandeep Shikotra
Supporter Care Manager

***Os nad ydy'r ddau lythyr yn ddigon eglur i chi allu eu darllen, yna chwyddwch faint y dudalen (ar waelod eich sgrin cyfrifiadur) nes bydd tua 170 – 200%. Iawn?***

Annwyl Peredur Evans,

Diolch yn fawr am y siec o £1500 yr anfonoch chi yn ddiweddar ar ran Eglwys Annibynnol Bethlehem. - rydyn ni mor ddiolchgar am gefnogaeth hael y gynulleidfa wrth i ni barhau i weithio i roi terfyn ar newyn yng Nghaerdydd. Rydyn ni eisoes wedi helpu 3371 o bobl eleni, gyda 1097 o rheini yn blant, a bydd eich rhodd yn ein helpu i ddarparu bwyd i lawer mwy o bobl ar draws Caerdydd yn yr wythnosau nesaf.

Ond tu ôl i bob rhif mae stori. Hoffwn rannu hanes Ela gyda chi ar ôl iddi ddod aton ni am gymorth;

Roedd Ela wedi teimlo nad oedd ganddi unman ar ôl i droi am gymorth. Roedd hi ar ei phen ei hun: doedd ganddi ddim arian i brynu bwyd ac roedd hi 11 wythnos yn feichiog. Roedd ei thŷ yn noeth. Doedd ganddi ddim nwyddau gwyn, dim oergell hyd yn oed. Roedd ganddi gywilydd gofyn am gymorth. Roedd hi'n siŵr bod pobl eraill mewn sefyllfa llawer gwaeth na hi a rhywsut, nad oedd hi'n haeddu unrhyw gymorth.

Aeth ein tîm ati i dawelu ei meddwl yn dyner nad oedd unrhyw gywilydd gofyn am gymorth a'i bod wedi dod i'r lle iawn. Fe wnaethom ni ganfod pa fwyd a phethau ymolchi roedd hi eu hangen a'u rhoi nhw mewn bag iddi. Roedd aelod o Dîm Cyngor Ariannol Cyngor Caerdydd, sy'n mynychu ein sesiynau yn rheolaidd, wrth law i roi talebau i Ela ar gyfer fitaminau cynenedigol a chyngor personol ar arian.

Mae Ela wedi cael rhywbeth nad oedd hi'n disgwyl ei gael: urddas. Wrth i Ela ddweud hwyl fawr a gadael ein banc bwyd, gwenodd ein tîm yn gynnes, gan gynnig anogaeth i Ela a'r addewid o rywle i ddod os bydd hi byth angen bwyd a chymorth ychwanegol eto.

Diolch am ei gwneud hi'n bosibl i fwy o bobl fel Ela ddod aton ni am gymorth yn y dyfodol. Byddwn yn gwerthfawrogi tasech chi'n pasio ein diolch ymlaen at aelodau'r gynulleidfa hefyd.

Cofion Cynnes

Sara Redwood
Rheolwr Gweinyddol

*O'r Pasg i'r Haf*

# ✶✶ Rhai o oedfaon Bethlehem ✶✶

Cofiwch fod y mwyafrif o'n hoedfaon ar gael ar YouTube (diolch i Wyn a Heulwen). Dyma ddolenni cyswllt i rai ac ambell lun i'ch atgoffa o'r oedfaon (heb fod mewn unrhyw drefn arbennig!)

Mawrth 15 – Y Parchedig Lona Roberts.
https://youtu.be/wbKSuFUvveM

Mawrth 29 – Sul y Blodau
https://youtu.be/q-lCJBiU5aU

Ebrill 5 – Sul y Pasg: Delwyn Sion.
https://youtu.be/Yx1ITdbxDXY

Ebrill 12 - Noa Evans.
https://youtu.be/VMbxkUFWB6M

Ebrill 26 - Gwilym Williams, Caerdydd.
https://youtu.be/6Ox4jm7i3VE

Mai 3 – Delwyn Sion - Cymun
https://youtu.be/deJAdA4idx8

Mai 10 - Parchedig Dyfrig Rees.
https://youtu.be/QUeSL5jzCrw

Mai 17 – Tomos Williams
https://youtu.be/Qb37dXQBUTs

Mai 24 – Aelodau Radur
https://youtu.be/G5Ld8QVktQA


Oedfa aelodau Radur



*O'r Pasg i'r Haf*

# ✶✶ Rhagor o oedfaon Bethlehem ✶✶






Oedfa Delwyn

Oedfa Gwilym Williams

Oedfa Ian Huws a Rhodr









(uchod) Oedfa Sul y Blodau drefnwyd gan
Eirlys Davies
(ar y dde) Y Groes o Flodau yn oedfa Sul Y Pasg

(chwith ac isod)
Oedfa Robert Owen Griffiths










Oedfa Aled Edwards

Oedfa Dyfrig Rees

Oedfa Lona Roberts

Oedfa Denzil John

# ODLAU'R GARTH

***Dau gyfraniad y tro hwn – gydag eglurhad gan y bardd o gefndir yr englyn cyntaf:***

## *Hen Gloc y Capel*



Un o'r trysorau a ddaeth o'r Wenallt i'n tŷ ni oedd yr hen gloc a arferai dipian yr eiliadau ar wal y gegin. "E. Francis, Carno" yw'r enw ar y wyneb gwelw, a hen Ysgoldy'r Pandy, ger Llanbrynmair, oedd ei gartref gwreiddiol. Roedd fy nhaid, Robert Evans, nid yn unig yn gyfrifol am yr Hen Gapel ond hefyd am y saith ysgoldy oedd ynghlwm â'r ofalaeth, yn cynnal gweithgareddau crefyddol a diwylliannol ar hyd a lled y plwyf. Pan gaewyd ysgoldy'r Pandy, yn y 1980au os cofia i'n iawn, aeth Dad a Mam yno i'r gwasanaeth olaf un. Dyna pryd ddaeth y cloc i'w meddiant ac roedd Dad yn ei weindio'n ofalus bob nos Sul, a'r cloc yn cerdded yn gyson a ffyddlon dan ei ofal yntau.

Mae'n gloc nobl er gwaethaf ei hanes distadl; ei wyneb gwyn wedi'i harddu o fewn cylch o bres a blwch o dderw cyfoethog. Pur syml yw cefn y cloc, cofiwch. Styllod plaen, di-addurn, cyntefig a gwledig yr olwg. Fel y dywedodd un o henaduriaid y Pandy wrth drosglwyddo'r cloc i ofal Dad a Mam - "Mae ganddo Queen Anne ffrynt... a Meri Ann back!"

***Cefais y dasg o lunio englyn, yn defnyddio "odl gudd", ar y testun "Cloc".***

Fe ddylai diwedd pob llinell 'englyn-un-odl-union' odli â'i gilydd ond, ar y darlleniad cyntaf, nid yw "daro", di-gyffro" ac "encilio" yn odli gyda'r gair "cloc" sy'n cloi'r englyn. Ond crefft i'r glust yw'r gynghanedd! O ddarllen yr englyn eto (yn enwedig o'i ddarllen ar goedd) falle y gwnewch chi sylwi fod y cytsain "c" ar ddechrau'r llinellau yn cyfuno gyda diwedd y llinellau blaenorol i greu'r odl" ...**OC**" yn gywir e.e. "...di-gyff **RO C**yn", neu "encili**O C**au...". Dwi'n gobeithio fod y gair "cloc" ar ddiwedd yr englyn yn taro'r glust yn rhyfedd - a dyna, felly, dynnu sylw at ergyd yr englyn ei hun!

***Yn ddi-dwrw, yn ddi-daro, cerddodd***
***Drwy'r cyrddau di-gyffro***
***Cyn i aelod encilio,***
***Cau'r clo yn lle ticiau'r cloc.***

***Rhys Powys***

A diolch i Hannah Roberts am gael cyhoeddi ei soned fuddugol yn Eisteddfod Mynytho.

**MYNYDD**

Bob dydd o waith yn hedfan ar ei hynt,
a'r wythnos yn diflannu gyda blas,
munudau, oriau'n mynd ynghynt a chynt
a'r diwrnod fel pe bae yn rhedeg ras.
Bydd natur yn ein pasio ni o hyd,
ni welwn adar nac anifail chwaith,
a ninnau wedi'n llyncu gan ein byd,
a'n camau yn cyflymu ar y daith.
Ac yna chwythodd oedran ni i le
â'i wacter yn ddieithrwch o flaen tan,
a ninnau'n amal nawr yn gofyn be
i wneud er mwyn i'r amser gerdded mla'n.
Munudau, oriau ac eiliadau rhydd
a'r mynydd yw eu dringo nhw bob dydd.

***Hannah Roberts***

Dros yr Haf, beth am i chi rhoi pin ar bapur, neu fawd ar I-pad neu ffôn symudol i gyfrannu i'r rhifyn nesaf o'r

**Gair Bach**

Tynnwch lun, rhowch hanesyn neu atgof ar glawr a'i anfon at Ifan Roberts
tycnau@aol.com

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn hwn.